



ARWYDDION CLIR

Gwella hygrychedd trafnidiaeth ar gyfer
pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw

Cymru

**RN
I:D** | Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws

Funded by



**Motability
Foundation**

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o Gymru fel rhan o astudiaeth ledled y DU ar brofiadau pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Ariannwyd yr ymchwyl yn hael gan y Sefydliad Motability. Rydym yn gobeithio y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn gymorth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau trafndiaeth ddarparu trafndiaeth gyhoeddus mwy hygyrch i bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw.



Prif ganfyddiadau

Mae rhwystrau o ran hygyrchedd ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn brofiad cyffredin i bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw, gydag 80% yn dweud eu bod yn eu hwynebu o leiaf rhywfaint o'r amser.

Y rhwystrau mwyaf cyffredin yw manteisio ar wybodaeth teithio (76%), cyfathrebu gyda staff (59%), a'r amgylchedd ffisegol (69%).

Yn wir, mae'r profiadau hyn yn effeithio ar emosiynau ac ymddygiadau. Mae mwy na chwech ym mhob deg person (61%) yn teimlo'n bryderus wrth deithio ac mae 78% yn dweud bod yn rhaid iddyn nhw aros yn wyladwrs trwy gydol y daith. Mae hanner (50%) yn osgoi teithio ar adegau prysur, a 30% yn osgoi trafndiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd fel rhywun sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw.

Dywedodd pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw wrthym pa newidiadau yr hoffan nhw eu gweld ar waith i hybu eu hyder, lleihau straen, cynorthwyo gyda theithio'n annibynnol, ac annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus:



Mwy o wybodaeth weledol ar gael

68%



Staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i gefnogi pobl fyddar

59%



Holl gyhoeddiadau sain ar gael yn fyw ar hysbysfyrddau gwledol

56%



Cyhoeddiadau sain eglur yn cael eu darparu'n uniongyrchol i ddyfeisiau clyw

46%

Argymhellion

Heb os, mae angen gweithredu cryfach i wella hygyrchedd trafndiaeth i bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw ar hyd a lled Cymru.

Hoffem weld:

1. Arweinyddiaeth o'r newydd gan Lywodraeth Cymru drwy gyflawni'r strategaeth Teithio i Bawb, y Ddeddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026, a'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl.

2. Buddsoddi mewn datrysiadau gwybodaeth teithwyr newydd, gan gynnwys technolegau a allai gynnig cyhoeddiadau dwyieithog a chyfieithu iaith Arwyddo Prydain byw.

3. Gweithredwyr trafndiaeth i fynd ati i ddylunio gwasanaethau ar y cyd â phobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw - i wella ymwybyddiaeth staff o fyddardod; darparu gwasanaeth cwsmer a sianeli cwynion hygyrch; a threialu technolegau arloesol megis Auracast.

Defnyddio'r ymchwyl hwn

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion arolwg gan 80 o ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Wrth gwrs mae'r canfyddiadau yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar eu profiadau nhw ond nid ydyn nhw'n cynrychioli holl bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yn ystadegol. At hyn, mae'n bwysig nodi y gallai ymatebion adlewyrchu profiadau teithiau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

Gallwch ddod o hyd i ganfyddiadau llawn y DU, y fethodoleg a mwy o straeon yn ymwneud â thrafnidiaeth gan ein cymunedau ar wefan RNID yma rnid.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/Clear-Signals-Final.pdf

Y rhwystrau rhag teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus



Cyffredinrwydd rhwystrau

Yng Nghymru, mae rhwystrau rhag teithio hygyrch yn brofiad cyson i bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw. Gwyddom fod pedwar ym mhob pump (80%) yn wynebu rhwystrau o leiaf rhywfaint o'r amser pan maen nhw'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, gyda dim ond 6% byth yn wynebu rhwystrau.

Gwybodaeth anhygyrch

Y rhwystr mwyaf cyson yw gwybodaeth teithio anhygyrch. Dywedai dros dri chwarter o bobl (76%) mae'r ffordd y mae gwybodaeth deithio yn cael ei darparu yn achosi rhwystrau iddyn nhw. O'r rheiny a wnaeth nodi hyn fel rhwystr, mae naw ym mhob deg (89%) yn teimlo ei fod yn effeithio ar eu hyder wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.


Dibyniaeth ar gyhoeddiadau sain

Dywedodd dros dri chwarter (76%) bod trafndiaeth gyhoeddus yn dibynnu gormod ar gyhoeddiadau sain o ansawdd gwael, yn enwedig yn ystod oedi neu broblemau teithio. Yn aml iawn mae gwybodaeth bwysig naill ai yn aneglur neu'n gwbl anhygyrch i bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw.

Darpariaeth anghyson o wybodaeth weledol

Mae gwybodaeth weledol yn anghyson ac yn annibynadwy. Er bod 65% yn dweud ei fod ar gael bob amser neu'n aml wrth aros am drên, mae hyn yn gostwng i ychydig dros hanner (53%) unwaith iddyn nhw gamu ar y trên. Dywedai bron i chwarter (24%) nad yw gwybodaeth weledol ar gael naill ai o gwbl neu'n anaml wrth deithio ar fws. O ganlyniad, mae'r diffyg gwybodaeth gyson, hygyrch yn achosi ansicrwydd a gorbryder i deithwyr. Cytunodd pedwar ym mhob pump (80%) bod gwybodaeth anhygyrch yn golygu bod teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn achosi straen. Hyd yn oed pan mae hysbysfyrddau gweledol ar gael, gallan nhw fod wedi'u gosod mewn mannau gwael, mae'r testun yn rhy fach i'w ddarllen, neu maen nhw'n arddangos gwybodaeth anghywir neu anghyfredol, yn enwedig yn ystod oedi neu broblemau teithio.

Ffigwr 1 Problemau gyda sgriniau ar wahanol ddulliau trafndiaeth



Cyfathrebu gyda Staff

Rhwystr sylweddol arall yw cyfathrebu gyda staff neu deithwyr eraill, gyda 59% yn dweud ei fod yn achosi rhwystrau iddyn nhw. Fodd bynnag, pan nad yw'r wybodaeth ar gael fel arall, mae 61% yn dibynnu ar ofyn i staff am gymorth. Dywedodd dros hanner (54%) eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn gofyn i staff am gymorth oherwydd rhwystrau cyfathrebu. Mae pobl o'r farn fod agwedd staff yn gymharol gadarnhaol, gyda 63% yn dweud eu bod nhw'n aml iawn neu bob amser yn cwrdd â staff sy'n gyfeillgar neu'n gymwynasgar. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw nifer ohonyn nhw'n meddu ar yr hyfforddiant, yr wybodaeth neu'r hyder i gyfathrebu gyda phobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yn effeithiol, gyda bron i ddwy ran o bump (38%) yn dweud bod staff yn anaml neu byth yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n hygyrch iddyn nhw.

"Mae'n adeg bryderus dros ben - rwy'n nerfus iawn fy mod i wedi cam-glywed neu heb glywed o gwbl. Rydw i wedi mynd i siarad gydag aelodau o staff ac wedi teimlo cymaint o gywilydd nad oeddwn i'n gallu eu deall fel fy mod i heb lwyddo i dderbyn unrhyw wybodaeth bellach ar ôl siarad gyda nhw." - 35-44, person byddar

Amgylchedd ffisegol

Mae'r amgylchedd ffisegol, gan gynnwys lefelau sŵn, gormod o bobl a goleuadau yn creu rhwystrau i dros ddwy ran o dair o bobl (69%), gyda 87% o'r rheiny yn dweud bod hyn yn effeithio ar eu hyder wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Dywedai dros dri chwarter (78%) bod lefelau sŵn bob amser neu'n aml yn ei gwneud yn anoddach manteisio ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Effeithiau emosiynol ac ymddygiadol


Mae'r rhwystrau eang y mae pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw yn eu hwynebu wrth deithio yn ymestyn y tu hwnt i anghyfleustra ymarferol ac mae'n effeithio ar sut mae pobl yn teimlo wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Yn wir, dywedai 61% eu bod yn teimlo'n bryderus wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac mae dros hanner (55%) yn teimlo'n agored i niwed. Mewn cyferbyniad i hyn, dim ond 6% sy'n teimlo'n ddiogel ac 1% sy'n teimlo'n dawel eu meddwl.

"Rwy'n poeni y gallai edrych i lawr i wirio rhywbeth am hyd yn oed eiliad achosi imi golli gwybodaeth ddefnyddiol. Fel edrych i ffwrdd o sgrin neu drenau gorlawn sy'n achosi diffyg gwelededd, mae'n gwneud imi deimlo'n gwbl ar goll" - 18-24, defnyddiwr Iaith Arwyddo Prydain

Llwyth gwybyddol a blinder
Adroddai nifer o bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw eu bod yn teimlo bod yn rhaid iddyn nhw ganolbwyntio mwy yn ystod teithiau. Dywedai dros dri chwarter (78%) eu bod nhw bob amser neu'n aml yn teimlo bod yn rhaid iddyn nhw aros yn 'wylidwrus' fel nad ydyn nhw'n colli eu stop neu gyhoeddiad. Yn ddealladwy, mae gorfod aros yn wylidwrus yn flinedig, gyda dros hanner (53%) bob amser neu'n aml yn teimlo wedi blino yn sgil y canolbwyntio.

Yn aml iawn mae pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yn addasu eu hymddygiad, gan ddibynnu ar ystod o strategaethau ymdopi a datrysiadau amgen wrth deithio. Defnyddiai dros naw ym mhob deg o bobl (91%) o leiaf un ffurf o strategaeth ymdopi neu ddatrysiad amgen wrth deithio. Cytunai 88% pan na allan nhw fanteisio ar wybodaeth deithio, yn aml iawn mae'n rhaid iddyn nhw ddatrys y broblem eu hunain. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod problemau teithio lle mae dim ond 41% yn teimlo eu bod nhw'n gallu deall beth sy'n digwydd a chynllunio llwybr teithio amgen.


Ffigwr 2. Strategaethau ymdopi a datrysiadau amgen a ddefnyddir i fanteisio ar wybodaeth deithio



Cynllunio a pharatoi helaeth

Mae bron i ddwy ran o dair (63%) yn gor-baratoi neu'n cynllunio ymlaen llaw ar gyfer teithiau oherwydd na allan nhw ddibynnu ar wybodaeth deithio hygrych. Mae hyn yn cynnwys bron i un rhan o dair (31%) sy'n cynllunio llwybr teithio amgen rhag ofn bod rhywbeth yn newid, a dydyn nhw methu â manteisio ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Yn ogystal, mae neilltuo amser ychwanegol yn gyffredin, gyda 85% yn neilltuo amser ychwanegol i gyrraedd pen eu taith.

Sicrwydd, symrlwydd a hyblygrwydd wrth deithio yw'r agweddau y mae pobl yn eu blaenoriaethu hyd yn oed os yw hyn yn costio mwy neu'n cymryd mwy o amser. Gallai hyn gynnwys defnyddio llwybrau cyfarwydd neu ddewis llwybrau drytach gyda llai o newidiadau er mwyn lleihau unrhyw broblemau posibl. Yn wir, mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn arwain at fabwysiadu ymddygiadau teithio mwy gofalus:



Patrymau osgoi

Er gwaethaf y defnydd o strategaethau ymdopi, mae nifer o bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yn newid y ffordd maen nhw'n teithio oherwydd rhwystrau ar drafnidiaeth gyhoeddus:



Gwelliannau a blaenoriaethau ar gyfer newid

Byddai system trafndiaeth gyhoeddus hygyrch yn trawsnewid teithiau ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw drwy hybu eu hyder, eu cefnogi i fod yn annibynnol a gwella'r profiad cyffredinol. Fodd bynnag, mae anghysondebau sylweddol yn parhau, gydag angen pendant am welliannau system-gyfan.

Prif flaenoriaethau

Pan ofynnwyd pobl i ddewis hyd at bum gwelliant a fyddai'n sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch (o restr o 21 opsiwn), roedd y gwelliannau a gafodd eu blaenoriaethu'n fwyaf cyffredin yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth yn eglur ac yn hygyrch drwy gydol y daith:

68%

Hysbysfyrddau gwybodaeth gweledol ar gael ym mhob arhosfan ac ar y cerbyd trafndiaeth gyhoeddus

59%

Staff wedi'u hyfforddi i gefnogi pobl fyddar neu sydd â cholled clyw

56%

Holl gyhoeddiadau sain, yn enwedig rhybuddion am broblemau, ar gael yn fyw neu ar hysbysfyrddau gweledol a/neu ddyfeisiau symudol

46%

Cyhoeddiadau sain mwy eglur yn cael eu darparu'n uniongyrchol i ddyfeisiau clyw



Galw mawr am wybodaeth weledol

Gwybodaeth weledol eglur, cyson a dibynadwy yw'r brif flaenoriaeth. Dywedodd dros ddwy ran o dair (68%) eu bod nhw eisau i hysbysfyrddau gwybodaeth weledol fod ar gael ym mhob arhosfan, gorsaf, ac ar gerbydau trafndiaeth gyhoeddus.

At hyn, mae galw cynyddol am ddiweddariadau byw. Mae dros hanner (56%) yn blaenoriaethu cael yr holl gyhoeddiadau sain, yn enwedig rhybuddion am broblemau teithio, yn fyw neu ar hysbysfyrddau gweledol neu ddyfeisiau symudol. Yn ei dro, byddai hyn yn sicrhau bod gan bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw fynediad cyfartal at wybodaeth ar yr un pryd â phobl sy'n clywed.

Pwysigrwydd cymorth staff

Mae bron i chwech ym mhob deg o bobl (59%) yn blaenoriaethu hyfforddiant staff sy'n atgyfnerthu'r rôl allweddol y mae staff yn ei chwarae yn cynnig sicrwydd a chymorth pan nad yw technoleg ar gael neu nad yw'n diwallu eu hanghenion. Felly, er caiff technoleg ei gydnabod ei fod yn chwarae rôl bwysig o ran gwella hygyrchedd, mae awydd amlwg i hyn gael ei gydbwyso gyda chymorth gan bobl.

Darparu cyhoeddiadau sain mwy eglur i ddyfeisiau clyw

Dywedodd bron i hanner (46%) y byddan nhw'n blaenoriaethu cyhoeddiadau sain mwy eglur yn cael eu darparu'n uniongyrchol i ddyfeisiau clyw. Bydd y math hwn o dechnoleg a'i fanteision yn anghyfarwydd i'r rhan helaeth ac felly mae'n debyg caiff lefel y galw ei danadrodd.

Wrth inni roi Auracast, sy'n darparu'r datrysiaid hwn, ar brawf, fe ddangosodd pa mor drawsnewidiol y gall fod i bobl. Yn wahanol i wybodaeth weledol sefydlog, gall sain wedi'i ffrydio gynnig mynediad uniongyrchol i bobl i gyhoeddiadau ble bynnag maen nhw. Gall leihau effaith sŵn cefndirol a lleihau'r angen i ddod o hyd i a monitro sgriniau arddangos yn barhaus mewn amgylcheddau trafndiaeth prysur.

Gallwch ddysgu mwy am Auracast ar ein gwefan rnid.uk/auracast-report

Effaith gwelliannau

Byddai mynd ati i wella hygyrchedd yn cael effaith pendant a chadarnhaol ar brofiadau pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw:

65%

yn dweud y byddan nhw'n teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus

59%

yn dweud y byddan nhw'n teimlo llai o straen yn ystod teithiau

39%

yn dweud y byddan nhw'n teimlo'n fwy parod i deithio'n annibynnol

35%

yn dweud y byddan nhw'n teimlo'n fwy grymus

33%

yn dweud y byddan nhw'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn amlach



Argymhellion



Stori Emily

Mae Emily yn ei 40au ac yn byw yng Nghaerdydd. Fe gychwynnodd golli ei chlyw yn ei 20au a bellach mae hi wedi colli ei chlyw yn gyfan gwbl yn ei chlust chwith ac mae ganddi golled clyw difrifol-i-ddwys yn ei chlust dde. Gwelwch stori Emily isod:

Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Mae defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn achosi straen mawr imi pan fyddaf yn teithio ar lwybrau anghyfarwydd neu pan fo cyhoeddiadau yn cael eu rhannu dros uwchseinydd na allaf ei glywed yn iawn.

Wrth gwrs mae gwybodaeth hygyrch wedi gwella yn y blynyddoedd diweddar drwy ffonau clyfar ac apiau trafnidiaeth sy'n fodd ichi brynu tocynnau a gwirio llwybrau teithio heb orfod siarad gyda staff, ond mae sefyllfaoedd 'yn y fan a'r lle' fel y gyrrwr bws yn dweud rhywbeth yn annisgwyl yn gwneud imi deimlo'n nerfus ac rwy'n mynd i banig yn ddiangen.

Newid platfformau

Unwaith, roeddwn i'n aros ar y platfform ac fe wnaeth fy nhrên ddiflannu oddi ar y sgrin. Roedd cyhoeddiad dros yr uwchseinydd, nad oeddwn yn gallu ei ddeall, ond fe wnes i wyllo'n llawn pryder wrth i ran helaeth y bobl oedd yn aros ar y platfform adael yn sydyn.

Fe ofynnais i rywun yn y dorf beth oedd yn digwydd, ond doeddwn i methu â'i deall hi ychwaith, a doedd yna ddim arwyddion na

phrif sgriniau i'w gwirio ar y platfform. Fe wnes i ddilyn pawb oedd yn mynd lawr y grisiau ac yn y pendraw fe wnes i ddod o hyd i'r platfform cywir ar gyfer fy nhrên, ond roedd yn rhy hwyr... fe adawodd cyn imi allu ei gyrraedd.

Oedi a theimlo'n rhwystredig

Roeddwn i wedi digio ac yn llawn cynnwrf. Mae'n rhwystredig y gallai rhywbeth bach fel arddangos 'mae'r platfform wedi newid i X' ar y sgrin fod wedi datrys y broblem. Roedd yn gwneud imi deimlo fel rydw i wedi teimlo ers blynyddoedd bellach pan nad ydw i'n deall pobl, ei fod rhywsut yn fai arna i nad oeddwn i'n gallu clywed yn ddigon da i glywed y cyhoeddiad. Mae newidiadau annisgwyl yn gwneud imi gofio fy mod i'n colli cymaint nad yw pobl eraill yn ei golli.

Datrysiad Anhygoel

"Roedd bod ynghlwm â threial Auracast yn Bristol Temple Meads yn anhygoel a dweud y gwir. Roedd y cyhoeddiadau wedi'u darparu drwy Auracast yn gwbl eglur, ac nid wyf wedi gallu clywed cyhoeddiadau platfform yn iawn ers ambell i ddegawd.

Pe bai Auracast ar gael ar drafnidiaeth gyhoeddus, byddai'n rhoi hwb aruthrol i fy hyder a byddaf yn gallu teithio'n haws. Ni fyddai'n rhaid imi fynd i banig na fyddaf yn deall, neu fod angen cynlluniau wrthgefn, neu ddibynnu ar bobl eraill i gyfieithu cyhoeddiad imi.

Fe ddylai Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth gyflawni'r canlynol:

- Ailymrwymo i'r strategaeth Teithio i Bawb a pharhau i roi ei egwyddorion ar waith gyda rhanddeiliaid ym myd trafnidiaeth Cymru.
- Gofalu bod hygyrchedd ar gyfer pobl fyddar ac anabl yn agwedd allweddol o strategaethau trafnidiaeth yn y dyfodol, gan gynnwys gweithredu Deddf Gwasanaeth Bysiau (Cymru) 2026, a chyflawni'r deilliannau wedi'u cynllunio ar y cyd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl 2025-35.
- Cydweithio gyda llywodraeth y DU i gyflawni diwygio rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol ar gyfer gwybodaeth sain-weledol ar draws dulliau trafnidiaeth, gan gynnwys rhwymedigaeth i wneud gwybodaeth sain yn hygyrch i bobl sydd â cholled clyw.
- Bwrw iddi i ymgysylltu ymhellach gyda defnyddwyr Iaith Arwyddo Prydain yng Nghymru, gan gydweithio gyda Phanel Cynghori Iaith Arwyddo Prydain a Grŵp Rhanddeiliaid Iaith Arwyddo Prydain, i ddeall eu profiadau a'u hanghenion ar drafnidiaeth gyhoeddus.



Fe ddylai Lab Trafnidiaeth Cymru:

- Annog a chefnogi busnesau newydd i ddatblygu datrysiadau sy'n gwella profiadau teithwyr, yn enwedig darpariaeth gwybodaeth, ar gyfer pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw.
- Eirioli dros gynnwys pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw drwy gydol prosesau dylunio, profi a gwerthuso datrysiadau gan fusnesau newydd a gefnogir drwy'r Lab.

Fe ddylai Trafnidiaeth Cymru a gweithredwyr trafnidiaeth eraill yng Nghymru gyflawni'r canlynol:

- Cyd-gynllunio gwasanaethau gyda phobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw.
- Cynyddu'r nifer o staff sydd ar gael, yn enwedig yn ystod problemau teithio, i gefnogi teithwyr byddar ac anabl.
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod cyffredinol i staff rheng flaen.
- Cynnig cymorth hygyrch i gwsmeriaid mewn gorsafoedd ac arosfannau di-griw, gan gynnwys gwasanaethau cyfnewid fideo a Wi-Fi dibynadwy am ddim lle bo angen.
- Sicrhau bod prosesau cwynion wirioneddol yn hygyrch, gan gynnwys ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddo Prydain.
- Cydweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i drefnu cynlluniau prawf Auracast ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**RN
I:D** | Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws

Funded by



**Motability
Foundation**

© RNID yw enw masnachu Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID). Elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr (207720) a'r Alban (SC038926). Cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (454169).